Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

11 Ionawr 2021

**Parthed: Mechnïaeth cyn cyhuddo a rhyddhau dan ymchwiliad**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf ynglŷn â'r adroddiad a grybwyllir uchod, a groesewir gennyf fi a'r Prif Gwnstabl Mark Collins.

Ers gweithredu'r newidiadau i'r Ddeddf Mechnïaeth yn 2017, rwyf wedi cael sicrwydd bod Arolygydd wedi arwain adolygiad cynhwysfawr o ddull Heddlu Dyfed Powys o reoli mechnïaeth a'r rhai a ryddheir dan ymchwiliad (RUI). Mae'r gwaith hwn wedi parhau o ddifrif ers arolygiad AHGTAEM ac mae'r adborth a gafwyd wedi'i nodi ac wedi'i roi ar waith. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Ddeddf Mechnïaeth a materion diogelu, mae'r Heddlu wedi gwneud newidiadau pwysig i brosesau drwy gyflwyno sawl system allweddol, ac amlinellir crynodeb ohonynt isod:

*Y dangosfwrdd mechnïaeth/RUI*
Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fanwl a chyfredol i oruchwylwyr am unigolion dan amheuaeth sy'n destun mechnïaeth neu RUI ar hyn o bryd. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi'r gallu i staff a rheolwyr weld cyfanswm nifer yr unigolion dan amheuaeth sydd ar fechnïaeth neu wedi'u rhyddhau dan ymchwiliad yn eu meysydd busnes; mae'r system yn galluogi rheolwyr i graffu ar gofnodion unigol a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â deddfwriaeth a chan roi sylw dyledus i ystyriaethau diogelu. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys tag dychweliadau mechnïaeth â chod lliwiau sy'n tynnu sylw swyddogion a goruchwylwyr at unigolion sydd ar fin gorffen eu cyfnod mechnïaeth sy'n eu galluogi i gynllunio eu gwaith yn fwy effeithiol.

I ategu'r gwaith hwn, cynhaliwyd ymarfer glanhau data o'r cofnodion hynny mewn dalfeydd a gwblhawyd yn flaenorol fel rhai RUI. Gwnaed newidiadau i'r statws cwblhau er

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

mwyn adlewyrchu canlyniad gwirioneddol yr ymchwiliad; o ganlyniad, mae cyfanswm nifer y cofnodion RUI wedi gostwng o bron i 7,000 ar ddechrau 2020 i 835 (ar 8 Ionawr 2021).

*Swyddogaeth cyfarfodydd rheoli dyddiol*
Mae'r system friffio wedi'i diweddaru drwy ychwanegu gwybodaeth am unigolion dan amheuaeth sy'n destun mechnïaeth, gan ganiatáu i uwch dimau arwain ymgymryd â gwaith goruchwylio a chraffu dyddiol. Mae'r system yn cynnwys tabiau â chod lliwiau ar gyfer *Deddf Mechnïaeth Newydd Ranbarthol* a *Methu Ateb Mechnïaeth*. Mae'r tabiau'n caniatáu monitro dyddiadau dychweliadau mechnïaeth gydag unigolion dan amheuaeth sy'n methu ag ateb mechnïaeth wedi'u hamlygu mewn coch.

Rhoddwyd mewnbwn i nifer o Brif Arolygwyr, ynghyd ag un pwynt cyswllt ym mhob Uned Gorchymyn Sylfaenol er mwyn sicrhau gwybodaeth am y swyddogaethau a gwella goruchwyliaeth leol.

*E-ffurflen mechnïaeth/RUI*
Datblygiad a gwelliant sylweddol arall yw ad-drefnu ac ail-lunio'r e-ffurflen mechnïaeth, a gyflwynwyd i ddechrau yn dilyn y newidiadau uchod i'r Ddeddf Mechnïaeth.

Defnyddiwyd yr e-ffurflen wreiddiol i reoli ceisiadau mechnïaeth cychwynnol, ceisiadau am estyniad i gyfnodau mechnïaeth a cheisiadau am estyniad i gyfnodau mechnïaeth llys. Mae'r swyddogaethau wedi'u hymestyn i alluogi goruchwylio'r penderfyniad i newid statws yr unigolion dan amheuaeth o 'ar fechnïaeth' i 'RUI'. Mae'r newidiadau'n rhoi ystyriaethau o ran dioddefwyr a diogelu wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau; rhaid i swyddogion bellach roi sylwadau ar briodoldeb ceisiadau RUI a chwblhau asesiad THRIVES. Os yw'r Arolygydd adolygu o'r farn bod y cais yn amhriodol, ystyrir dewisiadau eraill – e.e. estyniad gan Uwcharolygydd.

Rhaid i bob penderfyniad i drefnu RUI ar gyfer unigolion dan amheuaeth sy'n destun ymchwiliad am drosedd RAID (trais rhywiol, troseddau gwaethygedig, troseddau nominal a domestig Rheoli Troseddwyr yn Integredig) hefyd gael eu hawdurdodi drwy'r broses e-ffurflen, gan sicrhau'r un lefel o oruchwyliaeth a chraffu. Mae'r dull hwn yn sicrhau goruchwyliaeth, ffocws ac atebolrwydd priodol ynghylch penderfyniadau RUI mewn achosion lle mae mwy o bobl yn agored i niwed a lefelau risg uwch o droseddu. Gwnaed newidiadau i'r system ddalfa er mwyn atal pobl dan amheuaeth rhag cael eu rhyddhau dan ymchwiliad heb awdurdodiad gan Arolygydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Mae'r e-ffurflen wedi bod yn destun gwerthusiad ffurfiol gan dîm perfformiad Heddlu Dyfed Powys. Roedd y canlyniadau'n galonogol iawn ac yn dangos bod y system yn sicrhau bod materion diogelu a rheoli mechnïaeth a RUI yn amserol yn brif ffocws i swyddogion a goruchwylwyr.

I grynhoi, rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed Powys yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r cyntaf o'r argymhellion a amlinellir uchod. Mae'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddarpariaethau newydd y Ddeddf Mechnïaeth ac mewn ymateb i ganfyddiadau arolygu AHGTAEM wedi bod yn sylweddol ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo er mwyn parhau â'r gwelliant. Rhan hanfodol o hyn fydd y fframwaith perfformiad dalfeydd newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd lle mae gan fechnïaeth a RUI ran amlwg.

Er bod hyrwyddwyr Mechnïaeth a RUI eisoes wedi'u nodi ym mhob un o'r Unedau Gorchymyn Sylfaenol, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o fechnïaeth a RUI. Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn, bydd PACE a deddfwriaeth y Ddeddf Mechnïaeth yn cael eu hymgorffori mewn pecyn hyfforddi sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Arolygwyr.

O ran y cyfeiriad penodol at yr MG3 a gwaith gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae Adran Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu’n gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu ateb.

Hyderaf fod yr uchod yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r trefniadau sydd ar waith o fewn yr Heddlu o ran rheoli mechnïaeth a RUI. Byddaf wrth gwrs yn ceisio diweddariadau cynnydd parhaus gan Mr Collins a'i uwch dîm rheoli i'm galluogi i gyflawni fy swyddogaeth o graffu ar effeithiolrwydd trefniadau mechnïaeth yn Nyfed Powys.

Mae copi o'r ymateb hwn ar gael ar fy ngwefan.

Yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Cc: AEM Wendy Williams

Prif Gwnstabl Mark Collins